

Cylchlythyr | Circular

Ymgynghoriad: Datblygu Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2013-14 i 2015-16

Dyddiad: 25 Gorffennaf 2012
Cyfeirnod: W12/27HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Prifathrawon sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn
uniongyrchol yng Nghymru
Ymatebion erbyn: 12 Hydref 2012
Manylion cyswllt: Celia Hunt / Leanne Holborn
029 2068 2224 / 029 2068 2259
celia.hunt@hefcw.ac.uk
leanne.holborn@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys copi drafft o Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2013-14 i 2015-16 ar gyfer ymgynghoriad, gan gynnwys ystyried mesurau perfformiad posibl.

Mae'r cylchlythyr yn gwahodd sylwadau gan sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol. Bydd partïon eraill â diddordeb yn cael eu gwahodd i ymateb drwy'r wefan.

Os bydd angen i chi gael y ddogfen hon mewn fformat amgen, ffoniwch ni ar (029) 2068 2225, neu anfonwch neges e-bost at info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys copi drafft o Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2013-14 i 2015-16 ar gyfer ymgynghoriad, gan gynnwys ystyried mesurau perfformiad posibl.
2. Mae'r cylchlythyr yn gwahodd sylwadau gan sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol. Dylid anfon ymatebion at Craig Brett, craig.brett@hefcw.ac.uk erbyn dydd Gwener, 12 Hydref 2012. Bydd partion eraill â diddordeb yn cael eu gwahodd i ymateb drwy'r wefan.

Cefndir

3. Cyhoeddwyd ymateb y Gweinidog i adroddiad Adolygiad Jones, *Er Mwyn Ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr 21^{ain} ar ddiwedd Tachwedd 2009*¹. Yn sgil hynny datblygodd CCAUC ein Strategaeth Gorfforaethol 2010-11 – 2012-13². Cymeradwywyd y ddogfen honno gan Gabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru ac, ynghyd â chynlluniau gweithredu blynyddol, mae'n ffurfio'r cynllun gweithredu ar gyfer *Er Mwyn ein Dyfodol*. Mae'r strategaeth yn cynnwys deuddeg mesur '*Er Mwyn Ein Dyfodol*', a ddefnyddir i asesu perfformiad.
4. Mae arweiniad i CCAUC ar ei gyfrifoldebau fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chynlluniau Corfforaethol yn nodi: *'Ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi agenda strategol, rhaid i CCAUC lunio cynllun corfforaethol. Wrth ddatblygu ei gynllun corfforaethol, rhaid i CCAUC roi sylw dyledus i fframwaith polisi Llywodraeth Cymru fel y disgrifir yn y llythyr cylch gwaith. Rhaid i'r cynllun corfforaethol gwmpasu cyfnod yr agenda strategol a rhaid ei ddiweddarau yn unol â gofynion y tîm noddi'*.
5. Mae llythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer 2012-13 yn cynnwys adran ar Adnewyddu Strategaeth Gorfforaethol, sy'n nodi arweiniad pellach: *'daw Strategaeth Gorfforaethol gyfredol y Cyngor i ben yn ffurfiol yn 2013. Mae strategaethau ehangach y Llywodraeth i hyrwyddo adfywiad economaidd a gwella cyfiawnder cymdeithasol neu symudedd, ynghyd â'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu eisoes mewn perthynas â strwythur, llywodraethu a chyllido AU yng Nghymru yn gefndir i'r Cyngor ei ddefnyddio i fframio'i strategaeth ar gyfer y dyfodol. Bwriadaf ofyn i'm swyddogion yn nes ymlaen eleni i ddechrau rhaglen waith i ailddiffinio'r canlyniadau a ddisgwyliwn gan y sector addysg uwch gan adeiladu ar y newidiadau sydd bellach ar droed. Felly byddaf yn disgwyl i'r Cyngor weithio'n agos gyda'm swyddogion i sefydlu canlyniadau dymunol ar lefel genedlaethol ac yng ngoleuni ein gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer*

¹ wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/forourfuture/?lang=en

²

www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Corporate%20strategy%202010%20-%20English.pdf

addysg uwch i ddatblygu Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor.'

Datblygu'r Strategaeth Gorfforaethol

6. Wrth lunio'r strategaeth ddrafft at ddibenion ymgynghori, cytunodd y Cyngor ar rai elfennau cyffredin. Yn benodol, gwnaeth aelodau:
 - Gytuno i ddatblygu Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer y cyfnod 2013-14 – 2015-16;
 - Cytuno y bydd *Er mwyn ein Dyfodol* yn parhau i fod yn fframwaith strategol greiddiol, ynghyd â'r Strategaeth Gwyddoniaeth, y Rhaglen Lywodraethu a chyngor mwy diweddar Llywodraeth Cymru;
 - Cytuno bod y pum thema strategol yn parhau i fod yn berthnasol, a bod angen diweddarau'r testun ychydig;
 - Cytuno bod y ddwy thema galluogi yn parhau i fod yn berthnasol ac y dylid ychwanegu thema galluogi ar effeithiolrwydd sefydliadol;
 - Cytuno ar weledigaeth a chenhadaeth fyrrach;
 - Nodi, mewn ymateb i Arolwg y Rhanddeiliaid, y dylid cyfeirio'n glir at rôl CCAUC fel 'corff clustogi';
 - Nodi mewn ymateb i'r cylch gwaith y dylai 'Llais y Myfyriwr' fod yn glir.
7. Mae'r Strategaeth gyfredol wedi cael ei diwygio a'i datblygu, gan ystyried yr elfennau cyffredinol hyn, yn ogystal â chylch gwaith, Rhaglen Lywodraethu, ac arweiniad arall gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cynnwys ystyriaeth gychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru o ran y gwaith i ailddiffinio'r canlyniadau a ddisgwylir gan y sector addysg uwch.
8. Mae Strategaeth Gorfforaethol ddrafft 2013-16 wedi'i hatodi yn **Atodiad A**. Mae'n cynnwys ymagwedd lefel uchel a fydd yn cael ei hategu gan gynlluniau gweithredol blynyddol manylach. Mae'r canlyniadau cyffredinol a geisir gan y sector addysg uwch, fel y'u nodir yn *Er Mwyn ein Dyfodol*, sef cyfiawnder cymdeithasol ac economi fywiog, yn cael eu cyflawni drwy weithredoedd sy'n gysylltiedig â'r pum thema strategol a'r tair thema galluogi a'r amcanion.
9. Yn yr un modd â'r Strategaeth gyfredol, mae'r cyfeiriad strategol yn seiliedig ar *Er Mwyn ein Dyfodol* ac o dan bob un o'n themâu strategol byddwn yn parhau i weithio tuag at un o ddisgwyliadau penodol *Er Mwyn ein Dyfodol* yn ystod cyfnod tair blynedd y Strategaeth hon. Caiff ei ddatblygu ymhellach yng ngoleuni'r ymgynghoriad.
10. I ategu'r themâu/amcanion strategol a galluogi, mae ystod o fesurau perfformiad wedi cael ei ystyried. Atodir dogfen drafod yn **Atodiad B** sy'n ystyried y deuddeg mesur cyffredol o dan bob un o'r themâu/amcanion ac mae'n ceisio barn ar fesurau amgen neu ychwanegol. Bydd y mesurau hyn yn cael eu datblygu i dargedau penodol, gan ystyried yr ymgynghoriad a chyngor Llywodraeth Cymru.

11. Gan gadw'r gofynion yn ein llythyr cylch gwaith 2012-13 mewn golwg, sef sicrhau bod 'penderfyniadau sefydliadol yn cael eu cymryd o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy priodol' byddwn yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ein Strategaeth Gorfforaethol, gan ystyried yr ymgynghoriad hwn, ac yn ein cynlluniau gweithredu blynyddol.
12. Ymhlith rhai cwestiynau yr hoffech eu hystyried wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn mae:
 - A yw'r strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol?
 - Ai'r themâu/amcanion strategol a galluogi yw'r rhai cywir, ac a fyddant yn helpu i gyflawni canlyniadau cyffredinol *Er Mwyn ein Dyfodol* o ran cyfiawnder cymdeithasol ac economi fywiog?
 - A oes unrhyw fylchau?
 - A yw'r mesurau, gyda'i gilydd, yn rhoi synnwyr digonol o p'un a yw'r system AU yn perfformio'n ddigon da ai peidio?
 - Ai'r mesurau unigol yw'r rhai priodol (gwahoddir sylwadau ar y mesurau manwl yn Atodiad B)?

Cynnwys ein rhanddeiliaid

13. Yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn gyda sefydliadau AU ac AB, rydym yn cynllunio ymgynghoriad eang ar y we gyda'n rhanddeiliaid yn fwy cyffredinol. Bydd hyn yn cael ei lansio ar ein gwefan ar 3 Medi 2012.
14. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod cydraddoldeb yn fater craidd wrth ddatblygu a gweithredu ein polisïau. Rhaid i ni asesu effaith ein polisïau ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth, hil, crefydd a/neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a nodi sut y byddwn yn monitro neu'n mynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol posibl.
15. Rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu yn erbyn gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi ystyried effaith polisïau ar yr iaith Gymraeg, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector AU yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried materion datblygu cynaliadwy. Mae canlyniadau'r sgriniad ar gael ar gais.
16. Er mwyn cyfrannu at ein proses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn fwy cyffredinol, anfonwch neges e-bost at equality@hefcw.ac.uk. Am fwy o fanylion, gweler www.hefcw.ac.uk → Gweithio gyda Darparwyr AU → Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

17. Rydym yn gwahodd ymatebion gan sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol drwy'r cylchlythyr

hwn. Gwahoddir ymatebion gan bartïon eraill sydd â diddordeb rhwng dydd Llun 3 Medi a dydd Gwener 12 Hydref 2012.

18. Dylid anfon ymatebion at Craig Brett, craig.brett@hefcw.ac.uk erbyn dydd Gwener, 12 Hydref 2012.
19. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at Celia Hunt neu Leanne Holborn (ffôn 029 2068 2224 neu 029 2968 2259; e-bost celia.hunt@hefcw.ac.uk neu leanne.holborn@hefcw.ac.uk